

canllaw
darllen
 dros Gymru

2021-22

Her ddarllen hwyliog
 i blant oed cynradd Cymru

 CYNGOR LLYFRAU CYMRU
 BOOKS COUNCIL of WALES



#CaruDarlenn



“Dyma ffordd wych i gynnig profiadau i blant, i ddatblygu ethos Gymreig, i feithrin hyder wrth ddarllen, siarad a pherfformio”

athro



“Wnes i fwynhau’n fawr, mae cael cyfle i ddarllen a thrafod y llyfrau yn wych, ac mae perfformio’n andros o hwyl!”

dysgwr

Beth yw Darllen Dros Gymru?

Yn syml, her ddarllen hwyliog i blant oed cynradd Cymru sy’n:

- Annog plant i wirioni ar ddarllen a thrafod llyfrau Cymru.
- Meithrin agweddau cadarnhaol a hirdymor tuag at ddarllen.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol.
- Cyd-fynd â gofynion y Siarter Iaith a’r Cwricwlwm i Gymru.
- Cynnig hyblygrwydd gweithgaredd lefel grŵp neu ddosbarth.

Dyma glip fideo i egluro

https://www.youtube.com/watch?v=i9Ur_oXFpVw&t=33s






Sut mae'n gweithio?

- Cysylltwch gyda'ch trefnydd sirol i gofrestru ar gyfer her Darllen Dros Gymru.
- Porwch drwy'r detholiad o deitlau gwych ac amrywiol a geir yn y casgliadau, ar gyfer darllenwyr Bl. 3–6.
- Dewiswch eich teitlau o'r casgliad – un llyfr ar gyfer yr her drafod ac un ar gyfer yr her hysbyseb hyrwyddo.
- Archebwch eich llyfrau (ceir gwybodaeth bellach ar ddiwedd y canllaw).
- Darllenwch a mwynhewch y llyfrau (fesul grŵp neu ddosbarth).
- Mae Adnoddau Adolygwyr Ifanc ar gael [YMA](#) i'w lawrlwytho am ddim i'ch cefnogi.
- Dewiswch aelodau ar gyfer eich criw trafod (4 aelod) a chriw hysbyseb hyrwyddo (hyd at 8 aelod).
- Ewch ati i drafod y llyfr yn fanwl a chreu cyflwyniad ar ffurf hysbyseb i annog darllenwyr eraill i fwynhau'r llyfr.
- Bydd eich trefnydd sirol yn cysylltu gyda chi er mwyn trefnu dyddiad ar gyfer y rowndiau sirol.


Casgliad llyfrau – Pymtheg o lyfrau gwych ac amrywiol!



9781849675413

10 Stori o Hanes Cymru (Y Dylai Pawb eu Gwybod) Ifan Morgan Jones


Nod y llyfr ffeithiol hwn yw annog plant i ddarganfod a dysgu mwy am hanes Cymru drwy gyfrwng straeon, ffeithiau a mapiau.



9781849674935

Y Crwt yn y Cefn addas. Bethan Mair


Pan ddaw bachgen newydd, sy'n ffoadur o Syria, i ymuno â'r dosbarth, mae grŵp o blant eisiau bod yn ffrindiau ag ef a'i helpu i setlo yn ei fywyd newydd.



9781800991378

Dirgelwch y Dieithryn Elgan Philip Davies

Pan mae Iwan, Mair a'u ffrindiau'n gweld dieithryn blin yn y tŷ gwag wrth y parc maen nhw'n gwybod yn syth mai lleidr yw e! Eu tasg nhw dros wyliau'r haf yw ei ddal. Rhaid cael cynllun, a hynny ar unwaith!



9781784619084

Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll Carys Glyn


Mae'r wenynen yn drist ar ôl colli ei ffrindiau i gyd, felly, mae'n gofyn i Griw'r Coed am eu help. Llyfr lliwgar a thestun hwyliog sy'n dysgu gwers bwysig am yr amgylchedd.



9781912261789

Cwm y Wrach Meilyr Siôn


Daw hen chwedl yn fyw yn y stori antur hon, lle dilynwn Daisy, merch 11 oed, a'i theulu ar ôl iddynt symud i ardal Aberaeron o'r gogledd i gadw canolfan arddio.



9781849674843

Dyddiadur Dripsyn: Oes yr Arth a'r Blaidd addas. Owain Siôn

Mae rhieni Greg yn credu bod pethau'n llawer gwell yn yr oes o'r blaen. Ond dyw Greg ddim mor siŵr bod bywyd heb dechnoleg, gwres canolog a thŷ bach yn y tŷ yn swyno'n ddeniadol.




9781911584322

Fy Llyfr Englynion gol. Mererid Hopwood

Casgliad o 22 englyn, rhai yn glasuron a rhai yn newydd. Yn ogystal â'r cerddi ceir geirfa a nodiadau i helpu darllenwyr ifanc ddeall beth yw englyn.

Am y tro cyntaf rydym yn cynnig un rhestr o lyfrau ar gyfer cystadlaethau Blynyddoedd 3 a 4 a Blynyddoedd 5 a 6 eleni. Mae'r rhestr eang hon yn cynnig mwy o ddewis a mwy o ryddid, gyda rhywbeth at ddant pawb.






9781913245290

Y Gwningen a'r Arth: Beth yn y Byd?

Addas. Mari Lisa

Stori ddoniol am gwningen ac arth, dau ffrind sy'n eithaf gwahanol i'w gilydd, ac am gnocell y coed swnllyd sy'n gosod prawf ar eu cyfeillgarwch.



9781800991361

O'r Tywyllwch Mair Wynn Hughes


Mae'r byd wedi'i lygru a rhaid i bawb ffoi i'r Ddinas o dan y ddaear lle mae milwyr yn cadw llygad barcud ar bawb. Sut mae Hywyn a'i ffrind Meilyr am dwyllo'r awdurdodau?



9781784618629

Sw Sara Mai Casia Wiliam

Croeso i fyd Sara Mai, lle mae glanhau pw eliffant yn apelio lot mwy na mynd i'r ysgol, a lle mae'n llawer haws deall ymddygiad arth o Dde America na merched eraill Blwyddyn 5.



9781913245238

Trio: Antur yr Eisteddfod Manon Steffan Ros


Yn yr antur yma, mae Trio yn ceisio datrys dirgelwch diflaniad Cadair yr Eisteddfod, oriau'n unig cyn y seremoni!



9781845277741

Mae 'na Arth wedi Dwyn fy Mhyjamas Gruffudd Owen ac eraill

Casgliad o farddoniaeth ar y thema 'Canol Nos' gan fardd plant Cymru 2019-21 a beirdd plant y blynyddoedd a fu.



9781849675376

Stori Newid Hinsawdd addas. Siân Lewis

Mae'r llyfr hwn yn darlunio'r newidiadau yn hinsawdd y Ddaear, o ddechreuadau'r blaned a'i hatmosffer, hyd at y chwyldro diwydiannol a gwawr peirianwaith.



9781785620850

Tân ar y Comin T Llew Jones

Dyma hanes Tim Boswel, un o blant y sipsiwn, a adewir yn amddifad ar gomin Glanrhyd wedi i'w daid farw, heb ddim ond carafán, caseg, a'r ebol a anwyd ar y noson y bu farw'r hen wr.



9781913733841

Y Ferch Newydd Addas. Anwen Pierce

Daw merch i ysgol newydd mewn tref ddieithr, ac mae'r plant yn ei dosbarth yn gas tuag ati. Ymateb y ferch yw creu rhywbeth hardd sy'n newid agweddau pawb.



Gair i gall — Trafod

- Prif nod yr her yw dangos bod y criw yn gallu trafod y llyfr, y cymeriadau a'r digwyddiadau ynghyd â'r profiad darllen. Mae enghreifftiau o'r math o gwestiynau fydd yn cael eu gofyn ar y dudalen nesaf.
- Ni fydd disgwyl i'r criw trafod fod wedi paratoi trafodaeth o flaen llaw.
- Mae disgwyl i bob aelod ymateb i gwestiynau penagored a sylwadau'r beirniad yn ogystal ag ymateb i sylwadau ei gilydd.
- Caniateir uchafswm o 4 aelod ym mhob tîm trafod.
- Bydd y sesiwn feirniadu yn para tua 8 munud.

Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

Gwybodaeth

Gwybodaeth drylwyr am gynnwys y llyfr.

- Y gallu i fynd dan groen y llyfrau, y stori a'r cymeriadau, lle mae hynny'n briodol.
- Dealltwriaeth dda o neges a themâu'r llyfr.
- Cyfeirio at ddarllen ehangach y tu allan i ffiniau'r gystadleuaeth, lle mae hynny'n briodol.

Mynegi barn

- Mynegi barn yn glir gan roi rhesymau gonest a theg.
- Y gallu i holi, cytuno, ateb, anghytuno a herio lle mae hynny'n briodol.
- Gwrando ac adeiladu ar sylwadau ei gilydd.
- Cynnig sylwadau sy'n berthnasol i sylwadau eraill.

Trafod fel grŵp

- Y gallu i drafod yn annibynnol fel grŵp.
- Cyfraniad cyfartal a chytbwys gan bob aelod o'r grŵp.
- Trafod byrlymus.
- Gallu ymateb i gwestiynau sy'n codi o'r drafodaeth.

Cywirdeb iaith a naturioldeb

- Defnyddio geirfa, ymadroddion a chystrawennau Cymraeg.

Rhoddir 50% o'r marciau am y trafod.

Enghreifftiau o gwestiynau trafod

- Oedd unrhyw beth yn benodol fwynheuoach chi am/yn y llyfr?
- Beth ddaliodd eich sylw chi am/yn y llyfr?
- Oedd unrhyw beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am/yn y llyfr?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y llyfr?

- Beth oedd eich argraffiadau cyntaf chi o'r llyfr?
- Ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau tebyg i hwn?
- Ddarllenoch chi'r llyfr fwy nag unwaith?

Fwynheuoach chi'r llyfr mwy neu lai ar ôl ei ailddarllen? Allwch chi egluro pam?

Ydych chi'n credu y dylai pobl eraill ddarllen y llyfr yma fwy nag unwaith?

- Beth hoffech ei newid am y llyfr?
- Pa gymeriad hoffech chi gwrdd â nhw?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr hwn yn addas?
- Sut fasech chi'n disgrifio'r llyfr yma i rywun yr un oedran â chi?

Fasech chi'n argymhell y llyfr yma i blant eraill? Pam hynny?

- Pa gymeriad oedd fwyaf diddorol i chi? Ym mha ffordd? Pam hynny?
Petaech chi'n gallu cwrdd ag un cymeriad o'r llyfr, pwy hoffech chi gwrdd â nhw? Pam hynny?
- Ydych chi'n credu bod y cymeriadau'n gredadwy? Pam hynny?
- Ble mae'r stori'n digwydd?
Oes ots am hynny? Fyddai'r stori'n gallu digwydd mewn lleoliad gwahanol?
Oedd y lleoliad yn bwysig i chi wrth i chi ddarllen?
- Fwynheuoeh chi rai cerddi'n fwy nag eraill?
- Oes hoff gerdd gyda chi yn y llyfr?
Beth sydd mor arbennig am y gerdd yna i chi?
- Ydych chi wedi darllen unrhyw farddoniaeth arall tebyg i hyn?
- Ydych chi'n credu bod darllen barddoniaeth yn wahanol i ddarllen stori neu nofel?
- Beth ydych chi wedi ei ddysgu trwy ddarllen y llyfr yma?
- Pa gwestiynau oedd gyda chi ar ôl darllen y llyfr yma?
Ydych chi wedi dod o hyd i atebion i'r cwestiynau hynny?
Beth oedd yr atebion?
Sut brofiad oedd hi i chwilio am yr atebion hynny?
- Sut ydych chi'n credu bod darllen llyfrau ffeithiol yn wahanol i ddarllen ffuglen?
- Ar ôl yr holl drafod yma, beth ydych chi'n credu yw'r peth pwysicaf am y llyfr yma?

Hysbyseb Hyrwyddo

Gair i gall:

Yn dilyn llwyddiant fideos hysbysebion hyrwyddo cystadleuaeth 2021, byddwn yn parhau â hyn yng nghystadleuaeth Darllen Dros Gymru 2021 -22.

Mae'r dasg yr un fath ag arfer, sef paratoi hysbyseb i hyrwyddo un o lyfrau'r rhestr, ond nid y llyfr y byddwch chi'n ei drafod.

Y Rownd Genedlaethol

Bydd y timau sy'n cyrraedd y rownd genedlaethol yn gallu gwyllo fideos ei gilydd ar sgrin fawr. Bydd angen i'r ysgolion sydd yn cyrraedd y rownd derfynol anfon fideos eu hysbysebion hyrwyddo aton ni pythefnos cyn y rownd genedlaethol.

- Prif nod y perfformiad yw hyrwyddo'r llyfr er mwyn apelio at gynulleidfa o blant o'r un oedran er mwyn eu hannog i'w brynu a'i ddarllen.
- Pob tîm i ddewis UN llyfr gwahanol i'r un a ddewiswyd i'w drafod.
- Hyd at 8 aelod ym mhob tîm.
- Nid oes rhaid i'r aelodau sy'n cyflwyno'r llyfr fod yr un rhai â'r disgyblion fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth.

- Caniateir uchafswm o 6 munud ar gyfer yr hysbyseb hyrwyddo.
- Tynnir un marc am bob 30 eiliad dros y 6 munud a ganiateir.
- Gallwch ffilmio perfformiad llwyfan NEU gallwch ffilmio mewn lleoliadau gwahanol – byddwch mor greadigol ag y mynnwch!

Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

- Cyflwyniad sy'n cyfleu naws y llyfr ac yn annog y gynulleidfa darged i fynd ati i ddarllen y llyfr.
- Perfformiad bywiog gydag effeithiau dramatig amrywiol.
- Symudiadau a defnydd effeithiol o'r gofod berfformio.
- Y gallu i daflu lleisiau ac i gyfleu neges yn glir – lleisiau uchel, clir a hyderus.
- Y gallu i weithio fel tîm – cyfle i bob unigolyn gyfrannu at y cyflwyniad.
- Defnydd effeithiol o wisgoedd a phropiau.
- Caniateir y defnydd o feddalwedd golygu fideo syml gan y disgyblion.
 - Ni fydd ansawdd y golygu yn cael ei feirniadu eleni.

Rhoddir 50% o'r marciau am y trafod.

Amserlen Darllen Dros Gymru 2021-22

Rhannu rhestr lyfrau a gwybodaeth y gystadleuaeth	Medi 2021
Dyddiad olaf i gofrestru gyda'ch trefnydd lleol	Diwedd tymor yr hydref (Nadolig) 2021
Rowndiau sirol i'w cwblhau erbyn	Dydd Gwener 20 Mai 2022
Hysbysu'r Cyngor Llyfrau o'r canlyniadau sirol erbyn	Dydd Gwener 27 Mai 2022
Anfon fideos hysbyseb hyrwyddo	Dydd Mercher 8 Mehefin 2022
Rownd genedlaethol	Dydd Mawrth 21 Mehefin 2022 Dydd Mercher 22 Mehefin 2022
Bl 3 a 4 Bl 5 a 6	

Eisiau gweld a chlywed esiamplau?

Ewch i wyllo a gwrando ar enghreifftiau o berfformiadau gan fuddugwyr diweddar ar ein sianel YouTube:

<https://www.youtube.com/channel/UCvR0xdypgpv4gfA6UXDKO2Q>

Sut i archebu'r llyfrau

- O'ch llyfrwerthwr lleol.
- Ar **gwales.com**. Byddwn yn talu comisiwn i siop lyfrau o'ch dewis.
- Trwy Swyddog Ysgolion y Cyngor Llyfrau.
Byddwch hefyd yn cefnogi eich siop lyfrau leol

ysgolion@llyfrau.cymru



Cysylltwch â ni:

E-bost: plant@llyfrau.cymru

Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen,
Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB

Ffôn: 01970 624151